

Gwerthuso Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – trosolwg o ymatebion oddi wrth ymgeiswyr llwyddiannus

1. Pwrpas

Yn sgil gwerthuso'r cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol, mae'r papur hwn yn darparu crynodeb o ymatebion oddi wrth y rheini a dderbyniodd y dyfarniad ynglŷn ag effaith a gwerth y cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wrth helpu unigolion i wneud ymchwil yn y GIG. Y bwriad yw y bydd yr adborth a dderbynnir yn helpu i lunio gwaith datblygu polisi yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau ariannu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o'r un natur. Bydd hefyd yn bwydo i waith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar y cyd sydd ar ddod i wella'r llwybrau gyrfa ar gyfer ymchwilwyr yng Nghymru.

2. Cefndir

Ers 2010, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r sefydliad a oedd yn rhagflaenydd iddo, sef y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) trwy'r Cydweithrediad Gwyddor Iechyd Academaidd (AHSC) wedi rhedeg 'Cystadleuaeth Amser Ymchwil Glinigol', a ddatblygwyd i adeiladu capasiti a gallu ymchwilio trwy gynnig cyfle i staff y GIG (neu staff ar gontract â'r GIG) ymgeisio am amser wedi'i ddiogelu ar gyfer bwrw ymlaen â gweithgaredd ymchwil a datblygu eu sgiliau ymchwilio.

Nawr o'r enw Dyfarniad Amser Ymchwil y GIG (NHS RTA), mae'r cynllun ar agor i staff GIG Cymru, neu staff ar gontract â GIG Cymru (fel meddygon, deintyddion, nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr clinigol) ym meysydd gofal sylfaenol, eilaidd neu gymunedol neu iechyd cyhoeddus.

Rhwng 2010 a 2018¹, mae £5 miliwn wedi bod ar gael i 86 o staff y GIG, a'r rheini ar gontract â'r GIG trwy'r cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol. Mae'r rheini a'i dderbyniodd yn cynnwys Ymgynghorwyr, Nyrsys Arbenigol, Fferyllwyr, Gwyddonwyr Clinigol, Rheolwr Labordy, Cwnselydd Geneteg, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Meddyg Teulu.

¹ Heblaw am 2013-14

3. Gwerthuso'r cynllun

Fis Mawrth 2020, cysylltodd Is-adran Y&D Llywodraeth Cymru trwy e-bost â phawb a oedd wedi derbyn y dyfarniad rhwng 2010 a 2018, yn gofyn iddyn nhw gwblhau holiadur (atodiad A) ynglŷn ag effaith a gwerth y cynllun yn ystod y dyfarniad ac ar ei ôl, i helpu i asesu effeithiolrwydd y cynllun wrth gefnogi datblygiad eu gyrfa ymchwil.

O'r 86 o'r rheini a oedd wedi derbyn y dyfarniad, derbyniodd Llywodraeth Cymru 56 o ymatebion. Cysylltwyd sawl gwaith rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020 â'r rheini a oedd wedi derbyn y dyfarniad ac estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau oherwydd y brigiad yn yr achosion yn y pandemig COVID-19. At ddiben y papur hwn, mae'r term 'ymatebwr' yn cyfeirio at y rheini sydd wedi ymateb i'r gwerthusiad.

O ran statws cyflogaeth presennol, mae 23 o ymatebwyr yn dal i fod yn gyflogeion y GIG yn unig, mae gan 28 swydd wedi'i rhannu rhwng y GIG ac Academia, ac mae swydd 3 gydag Academia yn unig ac maen nhw wedi gadael/ ymddeol o'r GIG. Mae gan 1 person sesiynau sydd wedi'u rhannu ar draws dau sefydliad GIG ac mae gan 1 sesiynau sydd wedi'u rhannu ar draws dau sefydliad GIG ac AaGIC.

4. Crynodeb o'r adborth a phrif themâu

Mae'r adborth a roddwyd wedi'i grwpio o fewn 4 brif thema, sef:

- Effaith y dyfarniad ar ddatblygiad gyrfa ymchwil
- Sut y mae'r Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi helpu'r rheini a'i dderbyniodd i ddod yn Brif Ymchwilwyr/ yn Ben Ymchwilwyr
- Prif fuddion (manteision ac anfanteision) y cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol
- Pa newidiadau penodol y gellid eu gwneud i wella'r cynllun?

5. Effaith y dyfarniad ar yrfaedd ymchwil

Nod y dyfarniad yw darparu amser wedi'i ddiogelu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y GIG fel eu bod yn gallu mynd ar drywydd diddordebau a phrosiectau ymchwil, o ddechrau gyda syniadau trwedd i gyhoeddi papurau. Gwnaeth 83% o ymatebwyr sylw fod y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi cynorthwyo â datblygiad eu gyrfa trwy roi amser wedi'i ddiogelu i wneud ymchwil. I nifer fach o ymatebwyr, roedd y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi'u helpu nhw i sefydlu cydweithrediadau â chydweithwyr a oedd wrthi'n ymchwilio mewn sefydliadau academaidd ac wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i fynd ar drywydd gyrfa yn y byd academaidd yn y dyfodol.

O'r adborth a dderbyniwyd, nododd 20 o ymatebwyr fod yr amser wedi'i ddiogelu wedi bod yn hanfodol i wneud ymchwil ystyrllon mewn modd cynaliadwy. Gwnaeth 22 o ymatebwyr sylw fod y dyfarniad wedi'u galluogi i ddatblygu rhwydweithiau amlddisgyblaeth, cydweithio agos ac amser i sicrhau grantiau ychwanegol i helpu i sefydlu portffolio o dreialon clinigol.

Fodd bynnag, er bod llawer o'r rheini a dderbyniodd y dyfarniad yn bositif ynglŷn â nodau'r cynllun i helpu i ddatblygu gyrfa ymchwil, roedd adborth ynglŷn â diffyg cefnogaeth rheolwyr y GIG pan ddaeth cyfnod y dyfarniad i ben yn awgrymu bod hyn yn fater arwyddocaol. Rhoddir sylw manylach i hyn yn adran 8.

6. Effaith y dyfarniad ar ddatblygiad Prif Ymchwilwyr/ Pen Ymchwilwyr

Un o nodau'r cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yw cynorthwyo cyflogeion y GIG ar draws pob proffesiwn i ddod yn Brif Ymchwilydd neu'n Ben Ymchwilydd. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 78% yn nodi bod hyn wedi digwydd. Yn achos staff mewn swyddi ymgynghorwyr anfeddygol, mynegodd rhai bod yr amser wedi'i ddiogelu wedi darparu'r strwythur i ysgrifennu am ganlyniadau, agor astudiaethau newydd ac amser i gynllunio gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol. Yn ôl yr adborth oddi wrth un Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, roedd y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi darparu llwybr gwerthfawr i ymchwil, gan arwain at gyfleoedd i fod yn Ben Ymchwilydd ac, yn sgil hyn, cael budd ychwanegol o ddysgu a chydweithredu â chydweithwyr. Dywedodd ymatebwr arall na fyddai'n debygol y byddai wedi gallu dod yn Ben Ymchwilydd heb yr amser wedi'i ddiogelu, gan y byddai gwaith clinigol bob amser wedi cael blaenoriaeth.

Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi bod yn Brif Ymchwilwyr ac yn Ben Ymchwilwyr ar nifer o astudiaethau portffolio masnachol ac anfasnachol, gyda'r mwyafrif wedi cyhoeddi papurau ymchwil.

7. Buddion a chyfyngiadau'r cynllun

Buddion y cynllun

O ran buddion cyffredinol y cynllun, cydnabu 83% o'r ymatebwyr mor werthfawr oedd yr amser wedi'i ddiogelu wedi bod i fynd ar drywydd syniadau ymchwil unigol a'u datblygu. Soniodd rhai fod y cynllun wedi darparu'r cyfle i ddatblygu rhwydwaith o gydweithwyr y maen nhw wedi parhau i gydweithredu â nhw y tu hwnt i'r cynllun. Mewn rhai achosion, mae wedi galluogi llunio cysylltiadau cydweithredol ag academia, gan arwain at gefnogaeth, hyfforddiant a mentoriaeth trwy oruchwylwyr academaidd a'r unedau treialon clinigol. I rai, soniwyd am gefnogaeth gan gymheiriaid a oedd yn gydweithwyr academaidd, gan arwain at gyfleoedd i siarad am ymchwil a'i lledaenu mewn cynadleddau a oedd, yn ei dro, wedi arwain at gydweithrediadau y tu allan i'r DU.

Cyfyngiadau'r cynllun

Roedd y prif anfantais i nifer o ymatebwyr yn llai cysylltiedig â'r cynllun ei hun ac yn fwy cysylltiedig â'r opsiynau cyfyngedig i barhau ag ymchwil unwaith roedd cyfnod yr amser wedi'i ddiogelu wedi dod i ben. Mae'r rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys cyfyngiadau mewn cyllid Prifysgol a diffyg cefnogaeth y cyflogwr GIG i gefnogi gweithgarwch ymchwil ar ôl y dyfarniad. Yn ôl un ymatebwr "*y prif anfantais ydy diffyg dilyniant sefydliadol yn y GIG i barhau â phrif fyrddwn ymchwil*" ac yn ôl un arall roedd yna "*ddiffyg ymrwymiad oddi wrth y bwrdd iechyd i gefnogi ymchwil barhaus*".

Roedd adborth arall yn canolbwyntio ar yr heriau a ddaeth i ran rhai i sicrhau cefnogaeth y GIG i ôl-lenwi swyddi. Ysgrifennodd un ymatebwr "*doedd y bwrdd iechyd ddim yn gwirioneddol werthfawrogi'r dyfarniad. Nid oedd unrhyw ôl-lenwi wedi'i drefnu (er eu bod nhw wedi cytuno ar hynny ar y dechrau)*". Soniodd nifer o ymatebwyr eraill am yr her wrth "*ddod o hyd i staff digonol i ôl-lenwi swyddi*" ac mai'r "*her ydy'r tensiwn â'r gwasanaeth a chyllid dros dro sy'n ei gwneud hi'n anodd ôl-lenwi'r swyddi hyn yn foddhaol*". Soniodd llawer o'r ymatebion a dderbyniwyd nad oedd byrddau iechyd yn llawn werthfawrogi pwysigrwydd a gwerth amser wedi'i ddiogelu i wneud ymchwil. Yn ôl un ymatebwr, roedd nyrsys â'r sgiliau i wneud ei rôl arbenigol yn brin iawn pan roedd yn dechrau'r dyfarniad a'i bod wedi gorfod dod yn gyfrifol ei hun am hyfforddi rhywun newydd i wneud ei swydd.

Soniodd nifer fach o ymatebwyr hefyd am thema ôl-lenwi priodol mewn cysylltiad â lleihau'r amser wedi'i ddiogelu o 2 ddiwrnod (0.4 WTE) i 1 diwrnod (0.2 WTE) ac anhawster dod o hyd i staff ôl-lenwi am 1 diwrnod yn unig. Fodd bynnag, pan ddadansoddwyd y cynllun ar y pryd, cadarnhawyd bod llawer o ymgeiswyr wedi'i chael hi'n anodd cael cefnogaeth i drefnu ôl-lenwi am 2 ddiwrnod o amser wedi'i ddiogelu a phenderfynwyd, felly, cwtogi ar y sesiynau i 0.2 WTE (1 diwrnod) ar y mwyaf, a oedd hefyd wedi golygu cyfle i ariannu mwy o unigolion.

Roedd a wnelo adborth arall â chyfleoedd i ddatblygu gyrfa'n ymwneud ag ymchwil yn y dyfodol ar ôl i'r dyfarniad ddod i ben. Mae'r adborth a ganlyn yn crynhoi'r sefyllfa'n dda: "*nid oedd yna unrhyw lwybr gyrfa clir neu ganllawiau ar ôl y dyfarniad i mi ymsefydlu fel academydd clinigol, i feithrin ymchwil ar y cyd rhwng y GIG a Sefydliadau Addysg Uwch*".

8. Awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yn y dyfodol

Cefnogaeth GIG ar gyfer amser wedi'i ddiogelu

Roedd ei chael hi'n anodd parhau â gweithgarwch ymchwil ar ôl y dyfarniad, gyda llwybrau cyfyngedig i geisio cyllid i barhau ag amser ymchwil wedi'i ddiogelu, a'r angen i gael llwybr gyrfa cryfach o fewn y GIG ar gyfer ymchwil, yn thema a oedd i'w gweld yn amlwg ym mwyafrif yr adborth. Roedd ymatebion a dderbyniwyd yn

awgrymu bod y darlun wedi amrywio trwy gydol y cynllun o ran y gefnogaeth a roddwyd i'r rheini a dderbyniodd y dyfarniad unwaith yr oedd wedi dod i ben.

O'r 56 o bobl a ymatebodd, dim ond 18 sy'n cael eu cefnogi i barhau ag ymchwil (yn amrywio rhwng 1 a 4 sesiwn) fel rhan o'u rôl, trwy gyllid o gronfeydd elusennol a ffynonellau eraill.

Nododd 17 o Ymgynghorwyr, er eu bod wedi derbyn cefnogaeth i wneud ymchwil trwy sesiynau Cefnogi Gweithgarwch Proffesiynol (SPA), roedd hyn yn amrywio o ran amser a chysondeb. Yn y mwyafrif o achosion, mae ymchwil yn cystadlu â galwadau eraill ar y sesiynau hyn, fel Addysgu, Hyfforddi, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Archwilio, Cynllunio Swydd, Arfarnu, Rheoli a Llywodraethu.

I rai, roedd gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer y cynllun yn mynd y tu hwnt i'r cynllun ei hun ac yn tueddu tuag at werth y cynllun yn nhirwedd bresennol gwneud ymchwil o fewn y GIG ac effaith y cynllun ar y llwybr gyrfa ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Dyma oedd gan un ymatebwr i'w ddweud:

“Mae'r cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol mewn perygl o ddod yn gyfle sydd wedi'i fethu, os nad ydy hyn wedi digwydd yn barod, lle rydyn ni'n gadael unigolion brwdfrydig, hynod ddawnus ac ymroddedig yn niffeithwch bod heb strwythur Sefydliad Addysg Uwch/ Prifysgol traddodiadol neu o fewn adain Y&D y GIG wrth i bwysau ar y gwasanaeth barhau i erydu hyd yn oed yr amser prin sydd ar gael. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r astudiaeth ansoddol hon hefyd yn holi unigolion ynglŷn â'u trafferthion eu hunain yn eu byrddau iechyd i drosi eu Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yn amser go iawn, sy'n aml yn cael ei rwystro gan gyfarwyddwyr gwasanaeth; er bod rheolwyr ar lefel uwch wedi cyhoeddi cefnogaeth, yn anffodus, dydy'r adran ei hun ddim yn gweld pethau yr un fath. Mae'n annhebygol y bydd yr amser yn y Dyfarniadau Amser Ymchwil Glinigol presennol yn meithrin unrhyw wir ddatblygiad iymchwilydd.”

Mynegodd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd safbwyntiau eraill ac roedd a wnelo'r rhain yn helaeth â chyfleoedd cyfyngedig i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn y GIG pan fyddan nhw wedi derbyn PhD:

“Mae cap band 7 ar gyflogaeth llawer o bobl yn y GIG gan fod swyddi ymgynghorol yn gyfyngedig ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a dydy llawer o reolwyr y GIG ddim eisiau pobl sy'n canolbwyntio gormod ar ymchwil. I'r gwrthwyneb, mae gan y llwybr gyrfa ar gyfer rhywun â PhD yn y brifysgol strwythur yr holl ffordd i lefel athro, felly, yn y pen draw, mae'n anodd gwrthod cyfle i symud i'r byd academaidd. Nid oes yna unrhyw swyddi sy'n cyfuno'r byd clinigol â'r byd academaidd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yng Nghymru ac rydw i wedi gorfod bodloni ar 2 gontract cyflogaeth gyda 2 raddfa gyflog/ amodau gweithio gwahanol, sydd ddim yn ddelfrydol o bell ffordd. Mae angen cysylltiadau

mwy positif â Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd; mi fydden ni'n fwy llwyddiannus pe bai yna fwy o weithio cydgysylltiedig."

Mentora

Awgrymodd 12 o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol darparu mentoriaid i gefnogi ymgeiswyr llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys darparu mentor o Sefydliad Addysg Uwch i roi cyfarwyddyd, yn ddelfrydol rhywun sydd wedi cael Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol o'r blaen ac sydd wedi'i ddefnyddio'n dda trwy ddatblygu gyrfa ymchwil yn llwyddiannus. Mae awgrymiadau tebyg yn cynnwys sefydlu cofrestr o academyddion â diddordeb mewn helpu i fentora ymgeiswyr llwyddiannus a pharhau â'r math hwn o fentora ar ôl i'r dyfarniad ddod i ben, er mwyn adeiladu ar y sgiliau a'r deilliannau a gyflawnwyd. Roedd adborth arall yn cynnwys integreiddio'r cynllun yn agosach â Phrifysgolion i ganiatáu i sgiliau ymchwilio fod yn gynaliadwy yn y tymor hir ac alinio hyn yn well â Sefydliadau Addysg Uwch trwy fentor wedi'i glustnodi i roi cefnogaeth. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cyrsiau hyfforddi i adeiladu ar sgiliau ymchwilio a'u datblygu.

Yn ôl ymatebwr arall "Buaswn i wedi hoffi cael mentor ar gael yn ystod y cyfnod. Roedd y sesiynau grŵp yn rhagorol, ond efallai y gallen nhw fod wedi bod yn amlach; efallai (ar ôl y dyfarniad) y gallai cyswllt ag alwmni fod ar gael mewn sesiynau neu grwpiau."

Un thema gyffredin y soniodd ymatebwyr amdani oedd pwysigrwydd meithrin grŵp cynaliadwy o weithwyr proffesiynol sy'n gallu datblygu ymchwil at ddiben datblygu eu gyrfa eu hunain a hefyd i gynorthwyo ag annog ymchwilwyr llai profiadol. Mynegwyd awgrym arall, sef, "*Mae Cymru'n cystadlu yn erbyn sefydliadau ac amgylcheddau ymchwil sydd â màs critigol a chyllid mwy o lawer. Mae dyfarniadau o fri, fel cymrodoriaethau NIHR, yn gystadleuol iawn, ond mae Cymru wedi cael llwyddiant. Byddai'n ddefnyddiol iawn gallu defnyddio'r llwyddiant hwnnw i fentora cymrodyr y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol i ymgeisio i gyrff ariannu fel NIHR."*

Roedd a wnelo adborth a dderbyniwyd hefyd â'r gefnogaeth sydd ar gael yn uniongyrchol oddi wrth weinyddwyr y cynllun a drosglwyddwyd o NISCHR AHSC yn 2014/15 i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (dan oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru). Roedd un ymatebwr (2014/15) yn teimlo mai prin oedd yr adborth ar gynnydd, heblaw am un cyfarfod ar y cyd ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid o gyd-dderbynwyr y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol ym mlwyddyn gyntaf y dyfarniad, ac awgrymodd y dylai hyn fod yn fwy strwythuredig gyda gwell monitro a chyfleoedd i drafod â rhai eraill sydd wedi derbyn y dyfarniad.

Cyllid pellach a chyfleoedd i gyfoethogi'r cynllun

Derbyniwyd hefyd awgrymiadau ynglŷn â sicrhau cyllid i ddatblygu eu gyrfa ymchwil ymhellach ac awgrymodd rhai y dylai'r rheini sy'n derbyn y dyfarniad allu ymgeisio

am ail rownd ac, o bosibl, hyd yn oed trydedd rownd o gyllid (os yw'r prosiect yn mynd yn dda ac os yw deilliannau wedi'u cyflawni). Roedd adborth arall a dderbyniwyd yn awgrymu y gellid seilio cyllid parhaus ar gyflawni amcanion penodedig ac y dylai fod ar gael i'r rheini sy'n gallu profi eu bod yn gallu cynhyrchu deilliannau ymchwil gwerthfawr.

Derbyniwyd adborth mwy penodol hefyd, gan gynnwys syniad i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ei ystyried, sef datblygu system Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol haenog; *"i adlewyrchu a) Amser i – Glinigwyr Gyflenwi Ymchwil b) Amser i-Ddatblygu astudiaethau ymchwil Glinigol a Throsiadol ar y cyd â grwpiau Prifysgol, a c) Amser i – gydweithio â chynlluniau AaGIC/ hyfforddiant Ôl-raddedig/ Ymchwil o'r Tu Allan i'r Rhaglen (OOPR)/ WCAT (rhaglen Cymrodoriaeth Llwybr Academaidd Clinigol Cymru) i adeiladu fframwaith ymchwil glinigol cynaliadwy, tymor hir gyda mentoriaid ar gyfer unigolion mewn gwahanol haenau a fydd yn meithrin eu datblygiad tymor hir"*.

9. Gwerthusiad o'r Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yng nghydestun adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau wedi'u cyhoeddi sy'n canolbwyntio ar ymchwil yn y GIG, gan gynnwys sut y mae staff y GIG yn cael eu cefnogi i ddiweddarau ymchwil yn rhagweithiol fel rhan o'u rôl. Fis Ionawr 2020, cyhoeddodd Academi'r Gwyddorau Meddygol adroddiad o'r enw 'Transforming Health through Innovation'² sy'n dwyn sylw at nifer o themâu sy'n cefnogi system gofal iechyd y DU sy'n gwir werthfawrogi ymchwil. O fewn cwmpas yr adroddiad, gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys integreiddio timau ymchwil ar draws academia a'r GIG, rhoi'r sgiliau i staff gofal iechyd israddedig ymgymryd ag ymchwil a mwy o gefnogaeth i neilltuo amser ymchwil i staff y GIG sy'n weithgar ym maes ymchwil. Sonnir am y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yn yr adroddiad hwn fel symudiad i'r cyfeiriad iawn i ysgogi GIG sy'n ymwybodol o ymchwil, ond mae'r adroddiad yn argymhell bod Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG yn cyhoeddi gwybodaeth flynyddol ar ddeilliannau a buddiannau pob un o'u gweithgareddau ymchwil, i sicrhau bod ymchwil yn cael ei gwerthfawrogi yn fwy eang.

Cyn hyn, yn 2019, roedd menter 'Ymchwil i bawb' Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP)³ yn cynnig gwreiddio gwaith gwerthuso tystiolaeth a dylunio ymchwil yn holl gwricwla hyfforddeion ac, yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru) yr adroddiad 'Amser ar gyfer Ymchwil'⁴ a oedd yn galw am ymdrech fwy i gynyddu proffil ymchwil yn y GIG trwy sicrhau bod byrddau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am weithgarwch a darganfyddiadau ymchwil a wneir o fewn eu sefydliadau eu hunain a bod cynlluniau swyddi'n cael eu defnyddio'n gyson i neilltuo

² Academi'r Gwyddorau Meddygol (2020) Transforming health through innovation; Integrating the NHS and academia

³ Coleg Brenhinol y Meddygon (2019). Delivering research for all: expectations and aspirations for the NHS in England.

⁴ Coleg Brenhinol y Meddygon - Cymru (2019) Amser ar gyfer Ymchwil: Darparu gofal arloesol i gleifion yng Nghymru

amser ar gyfer ymchwil glinigol. Dygodd y ddau adroddiad sylw at rôl bwysig ymchwil gymhwysol mewn cyfrannu at well boddhad mewn swydd a'r effaith bositif y mae hyn yn gallu ei chael ar gadw'r gweithlu. O ran buddion i gleifion, mae adroddiad Academi'r Gwyddorau Meddygol yn sôn am gorff cynyddol o dystiolaeth bod deilliannau cleifion mewn amgylcheddau gofal iechyd sy'n weithgar ym maes ymchwil yn well a'u bod yn derbyn gofal gwell, gyda buddion yn ymestyn i gleifion y tu hwnt i'r rheini sydd a wnelo'n uniongyrchol ag ymchwil. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at nifer o arolygon sy'n dangos bod cleifion eisiau cael eu cynnwys mewn treialon meddyginiaethau neu driniaethau newydd, a bod y cyhoedd yn credu y dylai'r GIG chwarae rhan bwysig mewn cefnogi ymchwil i driniaethau newydd.

10. Y Camau Nesaf

Datblygwyd Cystadleuaeth Amser Ymchwil Glinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i adeiladu capasiti a gallu ymchwilio trwy gynnig cyfle i staff y GIG (neu staff ar gontract â'r GIG) ymgeisio am amser wedi'i ddiogelu i wneud gweithgaredd ymchwil a datblygu eu sgiliau ymchwilio. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd o'r gwaith hwn yn cadarnhau bod y cynllun, i fwyafrif yr ymatebwyr, wedi cyflawni'r diben a fwriadwyd – sef darparu cyfle gwerthfawr i staff y GIG dderbyn amser yn benodol i wneud ymchwil – a'i fod wedi cynorthwyo i ddatblygu unigolion i ddod yn Ben Ymchwilwyr ac yn Brif Ymchwilwyr. Fodd bynnag, o'r adborth a dderbyniwyd, mae angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r canlynol:

- sut y gellid sicrhau ymrwymiad sefydliadol mwy oddi wrth y GIG ac, yn enwedig, sut y gellir cefnogi staff y GIG i fynd ar drywydd gyrfa ymchwilio unwaith y mae'r cynllun wedi dod i ben;
- sut y gellid codi proffil a gwerth y cynllun o fewn y GIG;
- sut y gall rheolwyr y GIG gefnogi staff ar draws pob proffesiwn i ymgysylltu ag ymchwil fel rhan o'u swydd a datblygiad eu gyrfa yn y GIG ac/ neu academia;
- sut y gellid annog staff profiadol i fentora unigolion sy'n ymgeisio am grantiau er mwyn gwella'u datblygiad i ddod yn ymchwilwyr credadwy o ansawdd uchel yng Nghymru, boed yn cyflenwi neu'n datblygu ymchwil; a
- sut y gall y rheini sy'n derbyn y dyfarniad lunio cymuned yn ystod y dyfarniad ac ar ei ôl, i gefnogi ei gilydd a dod yn llysgenhadon i'r cynllun yn y dyfodol.

Hefyd, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n dechrau gwaith yn 2021 i ddeall yn well sut y gallai darparu amser wedi'i ddiogelu yn y GIG fel rhan o gynlluniau swyddi gyfoethogi capasiti a gweithgarwch ymchwilio. Ar ben hyn, bydd AaGIC ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn cychwyn prosiect i fapio a deall tirwedd y llwybr gyrfa ymchwil yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys nodi bylchau presennol ac argymhellion i ddod â Sefydliadau Addysg Uwch a'r GIG/ gofal cymdeithasol yn gyflin i gefnogi cenedlaethau staff iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol i fynd ar drywydd gwaith ymchwil fel rhan o'u swydd. Bydd yr hyn a ddysgir o werthuso'r Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol yn cyfrannu at y gwaith hwn fel bod y cynllun yn fwy addas o fewn llwybr gyrfa strwythuredig.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol – 2017/18 Gwerthuso'r cynllun

1. Cefndir i'r Cynllun Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol

Yn 2017, dyfarnodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Ddyfarniad Amser Ymchwil Glinigol ichi. Nod Cystadleuaeth Amser Ymchwil Glinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru oedd adeiladu capasiti a gallu ymchwilio yn y GIG trwy gynnis cyfle i staff ymgeisio am amser wedi'i ddiogelu i frw ymlaen â gweithgaredd ymchwil.

2. Pam ein bod yn ysgrifennu atoch chi

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gwneud asesiad ansoddol o'r Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol er mwyn deall effaith a gwerth y cynllun. Mae gennym ni ddiddordeb penodol ym mhrofiad yr ymgeisydd yn ystod y dyfarniad ac ar ei ôl, i'n helpu i asesu effeithiolrwydd y cynllun wrth gefnogi datblygiad gyrfa ym maes ymchwil. Bydd yr adborth y byddwn ni'n ei dderbyn yn helpu i lunio gwaith datblygu polisi yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau ariannu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru tebyg eu natur.

3. Eich Adborth

Mae'r adran a ganlyn yn cynnwys 8 cwestiwn a bydden ni'n ddiolchgar am glywed eich adborth. Byddwn ni'n trafod yr adborth â Chyfarwyddwyr Y&D y GIG fel rhan o drafodaethau parhaus ynglŷn â chyfatebolrwydd y cynllun hwn â chyllid Y&D cyffredinol y GIG, felly nodwch os y byddech chi'n dymuno i ni drin eich ymatebion yn gyfrinachol.

Cwestiwn 1

A fydddechystal â darparu manylion eich cyflogwr presennol a'ch rôl bresennol. Cynhwyswch hefyd wybodaeth o ran swyddi sydd o bosibl wedi'u rhannu rhwng Sefydliad Addysg Uwch a'r GIG.

Cwestiwn 2

Os ydych chi'n cael eich cyflogi mewn sefydliad GIG, ydy'r sefydliad wedi parhau i ariannu amser wedi'i ddiogelu ichi wneud ymchwil ac, os felly, sawl sesiwn/ diwrnod? Os ydych chi'n ymgynghorydd, byddai gennym ni ddiddordeb mewn gwybod a ydy hyn yn rhan o'ch amser Cefnogi Gweithgarwch Proffesiynol (SPA).

Cwestiwn 3

Ydych chi o'r farn bod y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi cynorthwyo â datblygiad eich gyrfa a pham?

Cwestiwn 4

Ydy'r Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol wedi'ch cynorthwyo i ddod yn Ben / yn Brif Ymchwilydd? Os felly, ar gyfer sawl astudiaeth?

Cwestiwn 5

Ydych chi wedi cyhoeddi unrhyw bapurau ymchwil yn ystod y dyfarniad neu ar ei ôl? Os felly, nodwch fanylion pellach.

Cwestiwn 6

Beth, yn eich barn chi, oedd prif fuddion ac agweddau negyddol/ anfanteision y Dyfarniad Amser Ymchwil Glinigol?

Cwestiwn 7

Pa newidiadau penodol (os o gwbl) fyddech chi'n awgrymu ein bod yn eu mabwysiadu i wella'r cynllun?

Cwestiwn 8

Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd heb ei nodi hyd yma ond yr hoffech chi ei rhannu.

Diolch am gwblhau'r gwerthusiad. Os y byddai'n well gennych chi drafod eich adborth, cysylltwch â Claire Bond yn Claire.bond@gov.wales